



Polisi Diwygiadau a Chywiriadau ar gyfer Datganiadau Ystadegol

CHWEFROR 2020



Rheoli Fersiynau

Cyhoeddwyd y Polisi Diwygiadau a Chywiriadau ar gyfer Datganiadau Ystadegol hwn ym mis Rhagfyr 2019.

Croesewir adborth ar y polisi hwn unrhyw adeg. Anfonwch unrhyw sylwadau i'r cyfeiriad policy@cymwysteraucymru.org

Egwyddorion cyffredinol y Polisi Diwygiadau a Chywiriadau ar gyfer Allbynnau Ystadegol

Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y bydd Cymwysterau Cymru ("ni") yn cyhoeddi allbynnau ystadegol yn ymwneud â data a gasglwn ar gymwysterau rheoleiddiedig. Rydym yn casglu data gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig at ddibenion monitro a chydymffurfio ac ar gyfer adolygiadau thematig a sector, fel yr amlinellir yn ein dogfen 'Datganiad Polisi ar Adolygiadau o Gymwysterau ac o'r System Gymwysterau' ac fel y nodir yn ein [Hamodau Cydnabod Safonol](#). Ym mis Tachwedd 2017 cawsom ein henwi'n gynhyrchwyr ystadegau swyddogol¹. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol^{2,3} a dulliau rheoleiddio⁴ ystadegau swyddogol.

Rydym yn ategu'r system gymwysterau trwy ddarparu amrywiaeth o allbynnau ystadegol a gwasanaethau. Rydym yn gwneud hyn trwy gyfrwng y canlynol:

- Meithrin a chynnal hyder yn ein staff a'n prosesau ystadegol sy'n cynhyrchu ystadegau a data. Rydym yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:
 - Meithrin capasiti, gallu a dulliau ymgysylltu;
 - Cynhyrchu ystadegau sy'n gredadwy ac felly'n awdurdodol.
- Sicrhau bod ein hystadegau'n gweddu i'r defnydd y bwriedir ei wneud ohonynt, yn seiliedig ar ddata a dulliau priodol, ac nad ydynt yn gamarweiniol yn eu hanfod. Rydym yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:
 - Cynhyrchu ystadegau sy'n berthnasol i'r defnydd amrywiol a wneir ohonynt;
 - Sicrhau bod dadansoddiadau amserol ar gael a'u bod yn seiliedig ar fethodoleg gadarn;
 - Sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng anghenion amrywiol (a chroes, o dro i dro) y defnyddwyr;
 - Rhagweld ac ymateb i newidiadau o ran anghenion defnyddwyr.
- Sicrhau bod ein hystadegau a'n data'n ddefnyddiol, yn hawdd cael gafael arnynt, yn parhau i fod yn berthnasol, ac yn ategu dealltwriaeth o faterion pwysig. Rydym yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:
 - Cyhoeddi data sy'n hygyrch, yn gyson ac wedi'u dogfennu'n llwyr;

¹Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (Tachwedd 2017) *Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017* [Ar-lein]. Ar gael yma <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1142/introduction/made> (Defnyddiwyd ar 11 Mehefin 2019).

²Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (Hydref 2009) *Gorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009* [Ar-lein]. Ar gael yma <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/2818/introduction/made> (Defnyddiwyd 11 Mehefin 2019).

³Y Senedd, (Gorffennaf 2007) *Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007* [Ar-lein]. Ar gael yma <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/18/introduction> (Defnyddiwyd 11 Mehefin 2019).

Awdurdod Ystadegau'r DU, (Chwefror 2008) *Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau* [Ar-lein]. Ar gael yma <https://www.statisticsauthority.gov.uk/code-of-practice/> (Defnyddiwyd 11 Mehefin 2019).

- Cynhyrchu ystadegau a gaiff eu cyflwyno a'u dosbarthu mewn ffyrdd sy'n gweddu i'r gymuned ehangach.

Mae "Allbynnau Ystadegol" yn cyfeirio at bob ffurf ar gyhoeddiadau sy'n cynnwys data yr ydym yn eu casglu mewn perthynas â chymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Gall yr allbynnau hyn hefyd gynnwys rhywfaint o ddata nad ydym ni'n eu casglu, ond a gaiff eu casglu gan gyrff eraill. Cyflwynir ein hallbynnau mewn nifer o ffurfiau, yn cynnwys:

- Datganiadau ystadegol rheolaidd sy'n cynnwys data a gaiff eu casglu'n rheolaidd;
- Datganiadau ystadegol arbrofol neu ad hoc ac ymatebion i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth;
- Adroddiadau thematig;
- Dogfennau briffio, bwletinau;
- Ffeithluniau a delweddau.

Caiff ein dull o gynhyrchu Allbynnau Ystadegol ei bennu yn ein Polisi Allbynnau Ystadegol.

Ein nod yw lleihau nifer y diwygiadau a wneir i'n hallbynnau ystadegol, ond o dro i dro mae newidiadau'n anochel. Ceir dau fath o newid:

- **Diwygiadau** – mae'r rhain wedi'u cynllunio fel arfer (ond nid bob tro), ac maent yn digwydd naill ai ar ôl i ddull gael ei wella neu pan ddaw data ychwanegol i law ar ôl y dyddiad cyhoeddi.
- **Cywiriadau** – nid yw'r rhain wedi'u cynllunio ac maent yn digwydd pan gaiff gwallau eu canfod naill ai yn y data neu yn y fethodoleg ar ôl i'r datganiad gael ei gyhoeddi.

Rydym yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer Ystadegau. Mae'r polisi hwn yn dilyn yr arferion gorau a bennir yn unol ag egwyddorion 'Didwylledd' ac 'Ansawdd' y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Cynnwys

Polisi Diwygiadau a Chywiriadau ar gyfer Allbynnau Ystadegol	1
Diwygiadau	5
Cywiriadau.....	6
Cyfleu diwygiadau.....	8
Amodau rhag-gyhoeddi sy'n berthnasol i newidiadau	8
Amseroldeb newidiadau	8
Cadw cofnod o newidiadau.....	8
Dadansoddi newidiadau	8

Diwygiadau

Diwygiadau a gynlluniwyd (oherwydd newidiadau methodolegol, ail-seilio neu argaeledd data 'terfynol')

1. Wrth ystyried diwygiadau a gynlluniwyd, bydd yr amser a enillir trwy gyhoeddi data dros dro yn cael ei gydbwyso bob tro â'r dryswch y gall diwygiadau eu peri i ddefnyddwyr a'r niwed posibl i'w hyder.
2. Yn achos unrhyw allbynnau sy'n cynnwys ystadegau a all fod yn agored i ddiwygiadau, byddant yn datgan pa un a yw'r ystadegau'n rhai dros dro ynteu'n rhai terfynol ac yn tynnu sylw at unrhyw ddiwygiadau. Os bydd unrhyw ddiwygiadau i'w cael, nodir:
 - beth ydynt;
 - pam maent wedi'u gwneud (datganiad cyffredinol yn hytrach na disgrifiad o bob newid unigol);
 - sut y maent yn effeithio ar unrhyw sylwadau neu ddehongliad a gyhoeddwyd yn flaenorol.
3. Cyn belled ag y bo modd, bydd yr ystadegau diwygiedig yn cael eu rhyddhau i'r un gynulleidfa a thrwy'r un cyfryngau â'r datganiad gwreiddiol. Bydd yr un wybodaeth ategol yn cael ei darparu.
4. Bydd newidiadau methodolegol sylweddol, a'u heffaith debygol, yn cael eu cyhoeddi cyn cyhoeddi unrhyw ddiwygiadau dilynol, er mwyn rhoi amser i ddefnyddwyr amgyffred y materion methodolegol yn gyntaf.

Data cyfres amser cyson

5. Gwneir ymdrech i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu gweld y data cyfres amser mwyaf diweddar. Lle bo'n briodol, bydd data cyfres amser yn cyd-fynd â phob Datganiad neu Fwletin.
6. Pan fydd diwygiadau'n cael eu gwneud, darperir cymaint o ôl-ddata cyson ag sy'n ymarferol bosibl, ar yr amod yr osgoir unrhyw oedi pellach cyn rhyddhau'r ystadegau terfynol.

Cywiriadau

Diwygiadau heb eu cynllunio (oherwydd gwallau)

7. Pan fydd gwallau i'w gweld, byddwn yn agored ac yn dryloyw ynghylch yr angen i wneud unrhyw gywiriadau. Byddwn yn asesu i ba raddau y gallai gwall effeithio ar y ffordd y caiff y cyhoeddiad ei ddehongli, gan gymryd camau priodol.
8. Cyn gynted ag y caiff diwygiadau heb eu cynllunio, mân wallau neu wallau mwy eu canfod mewn perthynas ag allbwn, bydd y defnyddwyr yn cael eu hysbysu trwy we-dudalen yr allbwn a'r cyfrif cyfryngau cymdeithasol a thrwy gyfrwng e-bost i gysylltiadau perthnasol.
9. Bydd yr ystadegau diwygiedig yn cael eu rhyddhau cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwn yn ymdrin â diwygiadau heb eu cynllunio trwy gynhyrchu datganiad diwygiedig yn cwmpasu'r un data a'r un cyfnodau amser â'r gwreiddiol. Bydd data diwygiedig ar gyfer cyfnodau amser blaenorol yn cael eu marcio'n glir.
10. Cyn belled ag y bo modd, bydd yr ystadegau diwygiedig yn cael eu rhyddhau i'r un gynulleidfa a thrwy'r un cyfryngau â'r datganiad gwreiddiol. Bydd yr un wybodaeth ategol yn cael ei darparu.

Mân wallau a gaiff ychydig iawn o effaith

11. Pan welir mân wallau na fyddant yn cael fawr o effaith yn ein barn ni, byddwn yn cywiro tudalen gyfatebol y datganiad ystadegol (y we-dudalen lle gwelir y cyhoeddiad) ac yn cynnwys datganiad yn nodi natur y newidiadau a wnaed.
12. Os nad yw'r gwall yn un sylweddol, er enghraifft gwall teipio, y cwbl a wneir yw cywiro'r ddogfen a'i hailosod ar y Rhyngrwyd.

Gwallau mwy:

13. Pan fyddwn yn dod o hyd i wallau mwy, byddwn yn ailgynnwys y ffigurau cywir ar y we-dudalen – pan fydd gwybodaeth gryno ar y dudalen honno – ac yn cynnwys nodyn yn esbonio'r gwall.
14. Os bydd y gwallau'n rhai sylweddol, byddwn yn rhoi hysbysiad ar ein gwefan a'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn hysbysu'r defnyddwyr tra bydd yr ystadegau diwygiedig yn cael eu paratoi.

Symbolau i'w defnyddio

15. Mewn achosion pan fydd tabl cyfan yn un dros dro, neu'n fersiwn ddiwygiedig o dabl a gyhoeddwyd yn flaenorol, bydd y term "provisional" neu "revised" yn cael ei gynnwys yn nheiti y tabl, ac ni fydd unrhyw symbolau'n cael eu defnyddio yng nghorff y tabl.
16. Defnyddir y symbolau canlynol i ddynodi data dros dro a data diwygiedig. Ni ddefnyddir unrhyw symbolau eraill.
 - "p" ar gyfer "provisional";
 - "r" ar gyfer "revised" (yn berthnasol i bob cywiriad, pa un a yw'n gywiriad a gynlluniwyd neu'n gywiriad na chafodd ei gynllunio).
17. Yn gyffredinol, caiff diwygiadau eu dynodi ar lefel cell gan ddefnyddio'r symbol "r" mewn unrhyw dabl sy'n cynnwys diwygiadau. Mewn achosion lle bydd y diwygiad yn berthnasol i fwyafrif y celloedd mewn rhes neu golofn gyfan o ddata, dull amgen fydd marcio pennawd y rhes neu'r golofn â'r symbol "r", a fydd ar wahân i unrhyw droednodyn arall a ddefnyddir. Bydd y symbol "r" yn cael ei ddileu os bydd yr un data heb newid pan gânt eu cyhoeddi mewn allbwn dilynol.
18. Yn gyffredinol, bydd statws dros dro'n berthnasol i is-set o ddata mewn tabl, fel y rhoddir i res neu golofn gyfan. Caiff penawdau rhesi neu golofnau perthnasol eu marcio â'r symbol "p", a fydd ar wahân i unrhyw droednodyn arall a ddefnyddir. Caiff y symbol "p" ei ddileu pan fydd y data ar eu ffurf derfynol.
19. Bydd y ddau symbol yn cael eu hesbonio'n glir, naill ai ar ffurf troednodyn i dabl sy'n gwneud defnydd ohonynt, neu mewn adran "nodiadau" lle disgrifir yr holl symbolau a ddefnyddiwyd yn yr allbwn.
20. Dyma'r cyfieithiadau a dderbynnir yn y Gymraeg ar gyfer y symbolau a'r ystyron canlynol:

Saesneg

provisional (p)

revised (r)

Cymraeg

dros dro (p)

diwygiedig (r)

21. Ni chaiff y symbolau eu cyfieithu i (t) neu (d) er mwyn osgoi'r angen i nodi amryfal symbolau mewn tablau dwyieithog.

Cyfleu diwygiadau

22. Bydd gan dudalen y datganiad ystadegol ar gyfer pob allbwn ddolen i'r polisi diwygiadau. Bydd y we-dudalen yn cynnwys:
- nodyn yn amlygu unrhyw ddiwygiadau a wnaed i'r cynnyrch hwnnw ac arwyddocâd y newidiadau hynny;
 - unrhyw awgrym o statws y ffigurau – bydd hyn yn nodi pa un a ydynt fel arfer yn agored i ddiwygiadau, ac ym mha ffordd;

Amodau rhag-gyhoeddi sy'n berthnasol i newidiadau

23. Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol ar gyfer ystadegau, bydd rhai Gweinidogion a swyddogion yn cael cyhoeddiadau ystadegol cyn iddynt gael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Os bydd angen gwneud newidiadau, gallant fod yn agored i'r un amodau rhag-gyhoeddi ag ystadegau newydd.
24. Byddwn yn ymgynghori â Phennaeth Proffesiwn Ystadegau Cymwysterau Cymru⁵ cyn i ni gyhoeddi unrhyw newid a fyddai'n cael effaith economaidd neu wleidyddol fawr.

Amseroldeb newidiadau

25. Mae amseroldeb yn fesur o'r bwlch rhwng y dyddiad y casglwyd y data a'r dyddiad y cafodd yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi. Rydym yn ceisio lleihau'r bwlch hwn a chyhoeddi pob allbwn cyn gynted â phosibl. Byddwn yn cydbwysu'r angen am amseroldeb â'r angen i osgoi gwneud newidiadau'n aml.

Cadw cofnod o newidiadau

26. Rydym yn cadw cofnodion electronig o holl fersiynau blaenorol ystadegau lle bo hynny'n bosibl, ac maent ar gael i ddefnyddwyr ar gais lle bo hynny'n ymarferol. Er mwyn osgoi dryswch, dim ond y datganiadau mwyaf diweddar a gedwir ar ein gwefan.

Dadansoddi newidiadau

27. Rydym yn monitro'r newidiadau a wnawn er mwyn gwella ein proses cynhyrchu ystadegau a gwella ansawdd ein hystadegau, ac er mwyn nodi unrhyw duedd

⁵ Mae hwn yn aelod adnabyddadwy o staff yn Llywodraeth Cymru.

systematig. Os deuir o hyd i unrhyw duedd o'r fath, byddwn yn hysbysu ein defnyddwyr.

28. Dymunwn i'n cyhoeddiadau fod yn hygyrch. Os oes gennych unrhyw ofynion penodol yn ymwneud â hygyrchedd, cysylltwch â ni yn statistics@cymwysteraucymru.org.